# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Ymchwiliad i statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru - sesiwn dystiolaeth 5

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 23)

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Kevin Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol

Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-Adran Addysg Bellach a Prentisiaethau

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

CYPE(5)-36-18 - Papur 1

## 3 Papur(au) i'w nodi

(11.00)

### 3.1 Llythyr oddi wrth y Llywydd at y Prif Weinidog – Rôl y Cynulliad yn y broses ddeddfu ar gyfer Brexit

(Tudalennau 24 - 25)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-36-18 – Papur i'w nodi 1

### 3.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 8 Tachwedd

(Tudalennau 26 - 30)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-36-18 – Papur i'w nodi 2

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.00)

## 5 Ymchwiliad i statws y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru – trafod y dystiolaeth

(11.00 - 11.30)

## 6 Blaenraglen waith y Pwyllgor – Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

11.30 – 11.45 (Tudalennau 31 - 33)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-36-18 – Papur preifat 2

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Oddi wrth: Llywodraeth Cymru**
**Dyddiad: 10 Hydref 2018**
**Lleoliad: Senedd Bae Caerdydd**
**Teitl: Papur tystiolaeth ar yr ymchwiliad i statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Ym Medi 2015, cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru newydd sy'n fwy trwyadl i'w haddysgu ar lefel Sylfaenol, Cenedlaethol ac Uwch, yn seiliedig ar argymhellion gan yr Arolwg o Gymwysterau i bobl 14 i 19 oed yng Nghymru.

Mae Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn gymhwyster cyfansawdd ac mae'n cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau (THS), sef cymhwyster graddedig sy'n ategu cymwysterau. Mae'r THS yn gymhwyster unigol a gellir ei ennill a'i ddyfarnu heb y cymwysterau eraill sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru.

Dyfernir Bagloriaeth Cymru i fyfyriwr ar ôl iddo gyflawni cyfuniad penodol o gymwysterau.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) mae dwy lefel; Sylfaenol a Chenedlaethol. Mae'r THS yn cyfateb i TGAU. I ennill Bagloriaeth Cymru yng CA4, rhaid i ddysgwyr gyflawni:

- Y Dystysgrif Her Sgiliau;
- TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith, a Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd;
- 3 TGAU pellach a gall 2 ohonynt fod yn gymwysterau cyfatebol galwedigaethol.

Yn y cyfnod ôl-16 / Cyfnod Allweddol 5 (CA5) mae tair lefel; Ôl-16 Cenedlaethol, Ôl-16 Sylfaenol a lefel Uwch. Mae THS lefel Uwch yn cyfateb i bwyntiau tariff UCAS ac yn cyfateb i safon Uwch. Fel gyda CA4, er mwyn ennill Bagloriaeth Cymru Ôl-16 neu lefel Uwch, rhaid i ddysgwyr lwyddo mewn:

- Tystysgrif Her Sgiliau;
- TGAU Saesneg neu Gymraeg Iaith, a Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd (neu Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif Lefel 1 neu 2);
- Dewis o lefel 1, 2 neu 3 neu safon Uwch (yn dibynnu ar lefel y Fagloriaeth)

Mae Bagloriaeth Cymru, fel cymhwyster diwygiedig yn weddol ifanc a bydd yn parhau i ddatblygu gydag amser. Ar hyn o bryd dim ond dwy gyfres o ganlyniadau a gafwyd ers ei gweithredu ym Medi 2015.

**I ba raddau mae dysgwyr, rhieni, gweithwyr addysg proffesiynol mewn ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr wedi deall a gwerthfawrogi Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster eang ei chwmpas sy'n cofleidio'r broses o addysgu sgiliau dysgu sylfaenol. Mae'n galluogi disgyblion i ddod yn fwy annibynnol, yn fwy beirniadol wrth bwyso a mesur ac yn fwy hyblyg yn eu dulliau gweithio.

Pan ddatblygwyd Bagloriaeth Cymru i ddechrau, cafwyd cyfraniad gan sefydliadau addysg uwch (SAU), cyflogwyr ac arbenigwyr o bob cwr o'r DU, ac mae cynnwys y fanyleb yn rhoi dewis i ysgolion o fodelau cyflawni, felly gellir defnyddio dull creadigol o gyflawni gofynion y cwricwlwm.

Mae Bagloriaeth Cymru yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymdeithas, y gymuned lle maen nhw'n byw ac ymwybyddiaeth o faterion byd-eang, digwyddiadau a safbwyntiau. Mae pwyslais Bagloriaeth Cymru ar ddysgu cymhwysol h.y. meithrin a defnyddio amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau yng nghyd-destun tasgau bwriadus a gwybodaeth a dealltwriaeth briodol.

Darganfu'r adolygiad diweddar o Fagloriaeth Cymru, a gomisiynwyd gan Cymwysterau Cymru, fod "dysgwyr ac athrawon yn adrodd am lawer o elfennau gwerth chweil y THS. Roedd llawer o enghreifftiau lle'r oedd dysgwyr wedi dweud eu bod wedi mwynhau agweddau penodol ar y THS, megis mynd allan i'r gymuned neu ddysgu sgiliau busnes." Serch hynny, "dywedodd athrawon nad yw'r ddogfennaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r THS bob amser yn glir a chyson, a bod hyn yn arwain at anawsterau wrth ei rhoi ar waith. Hefyd, nododd llawer o ddysgwyr fod diffyg o ran darparu gwybodaeth a negeseuon cyson am y THS."

Argymhellodd yr adolygiad y dylai Cymwysterau Cymru, CBAC a Llywodraeth Cymru adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am y THS a Bagloriaeth Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn glir, yn gyson ac yn hygyrch. Mae'r gwaith hwn ar y gweill.

**I ba raddau mae dysgwyr, gweithwyr proffesiynol addysg mewn ysgolion a cholegau, cyflogwyr ac addysg uwch yn ystyried bod Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyfwerth a thrwyadl**

Mae gan y Fagloriaeth ddiwygiedig ffocws newydd ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar bob dysgwr ac mae materion sy'n gysylltiedig â thrylwyredd gwaith asesu'r Fagloriaeth flaenorol wedi'u datrys. Mae'r asesiad diwygiedig yn canolbwyntio ar gyd-destunau bywyd go iawn a fydd yn ennyn diddordeb dysgwyr.

Fodd bynnag, canfu adolygiad Cymwysterau Cymru o'r THS fod cyfanswm y gwaith asesu yn rhy fawr a bod rhai athrawon yn treulio swm anghymesur o amser yn asesu a safoni gwaith dysgwyr. Bydd y Grŵp Dylunio sydd wedi'i sefydlu i fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth briodol i'r model asesu yn ogystal â materion eraill.

Mae adroddiad UCAS 2018 yn rhoi canfyddiadau ar yr hyn a gynigir gan sefydliadau a'u dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru[1]:

- Mae 85% o ymatebwyr yn ymgeisio am y THS Uwch. O'r ymatebwyr hyn, mae 69% yn gwneud dau bwnc safon U yn ogystal, a 24% yn gwneud tri phwnc.
- Teimlai 69% fod gan brifysgolion a cholegau ddealltwriaeth dda neu resymol o Fagloriaeth Cymru, gyda 3% yn teimlo nad oedd ganddyn nhw unrhyw ddealltwriaeth o gwbl.

[1] UCAS (2018) - arolwg o ddarpariaeth cymwysterau
https://www.ucas.com/file/171231/download?token=Bhu10d_s

Mae gwefan CBAC yn cynnwys gwybodaeth am Brifysgolion sy’n derbyn y THS. Ar hyn o bryd mae holl Brifysgolion Cymru yn cynnwys y THS Uwch yn eu cynigion. Mae mwyafrif y prifysgolion a mwyafrif y cyrsiau mewn prifysgolion eraill hefyd yn derbyn y THS Uwch. Mae hyd yn oed y cyrsiau mwyaf cystadleuol megis Meddygaeth, Deintyddiaeth a Gwyddorau Milfeddygaeth yn ei dderbyn fel cymhwyster amgen i radd safon U:

e.e. Meddygaeth – Caerdydd, Caerwysg, Caerlŷr, Manceinion, Plymouth, Southampton
Meddygaeth/Gwyddorau Milfeddygaeth – Bryste, Lerpwl, Nottingham
Deintyddiaeth – Bryste, Caerdydd

Gall cynigion ar gyfer cyrsiau eraill ddilyn fformat fel a ganlyn:

- Caiff ei dderbyn mewn cynnig 3 gradd fel cymhwyster amgen i safon U neu gymhwyster galwedigaethol. e.e. Birmingham, Bryste, Caeredin, Caerwysg, Caerhirfryn, Leeds, Caerlŷr, Lerpwl, LSE, Loughborough, Manceinion, Newcastle, Nottingham, Sheffield, Southampton, UCL, Efrog
- Caiff ei dderbyn fel y bedwaredd radd (B neu C) ynghyd â chynnig 3 gradd sy’n is. e.e. Caerfaddon, Warwick
- Caiff ei dderbyn yn y cynnig pwyntiau tariff. e.e. Brighton, Caer, Edge Hill, Harper Adams, Hull, John Moores Lerpwl, Met Manceinion, Brookes Rhydychen, Plymouth, UWE.

Bydd Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn defnyddio dull gwahanol. Wrth asesu ar gyfer derbyn, caiff myfyrwyr eu hasesu yn holistaidd. Anogir myfyrwyr i ystyried y profiadau THS perthnasol wrth ysgrifennu eu datganiad personol a mynd ati i’w trafod mewn cyfweliad, a hyd yn oed mynd â chopi o’u Prosiect Unigol gyda nhw. Yn gyffredinol, nid yw’r THS yn cael ei gynnwys yn eu cynigion 3 gradd safon U, ond gellir ei ddefnyddio fel rhan o gynnig.

**Statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau, yn cynnwys targed Llywodraeth Cymru i’r Fagloriaeth gael ei mabwysiadu’n gyffredinol ac effaith bosibl agwedd o’r fath**

Fel yr amlinellais yn fy llythyr i’r pwyllgor ym mis Ionawr eleni, disgwyliwn i Fagloriaeth Cymru fod ar gynnig yn y rhaglenni dysgu i bob dysgwr 16-19 oed, gyda’r nod o gael pawb i’w mabwysiadu erbyn 2019/20.

Disgwylir i benaethiaid a phrifathrawon ddefnyddio’u barn broffesiynol wrth bennu pa raglen ddysgu sy’n iawn i’w dysgwyr, a bydd hyn yn cynnwys ystyried lles y person ifanc a’i allu i gyrraedd ei botensial. Nid oes meini prawf sy’n gallu pennu’n fanwl gywir pwy sy’n berthnasol i ba raglen ac eithrio’r eithriadau a welir yn y cyfarwyddyd, felly arweinwyr yr ysgolion a’r colegau sydd yn y sefyllfa orau i wneud y cyfryw benderfyniadau.

O ran anogaeth yn y dyfodol, fel rhan o gyfres newydd o fesurau perfformiad ôl-16, byddwn yn cynnwys mesurau ar gyfer Bagloriaeth Cymru, er nad oes eto benderfyniad terfynol wedi’i wneud ar y dyddiad y cyhoeddir y rheiny ar gyfer colegau ac ysgolion unigol.

**Effaith ehangach astudio Bagloriaeth Cymru ar bynciau eraill y cwricwlwm ac ar ddarpariaeth addysg**

Ysgolion sydd yn y lle gorau i gynllunio'r cynnig cwricwlwm lleol sy'n bodloni eu gofynion penodol, ac ysgolion unigol sy'n penderfynu ar y dewis o gyrsiau a gynigir i ddysgwyr ar gyfer eu hopsiynau TGAU, gan weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, nid Llywodraeth Cymru.

Mae Mesur Dysgu a Sgiliau Cymru 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynnig i ddysgwyr leiafswm o 25 cwrs gydag o leiaf 3 cymhwyster galwedigaethol yn eu cynigion cwricwlwm CA4 lleol. Gall dysgwyr 16-18 oed ddewis o 30 cwrs, gyda 5 yn gorfod bod yn alwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob dysgwr gwricwlwm eang a chytbwys.

Dylai ysgolion a cholegau fod yn darparu cyfleoedd sydd er lles gorau'r dysgwr a byddem yn disgwyl iddyn nhw ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth bennu pa ddysgwyr ddylai ymgymryd â Bagloriaeth Cymru.

Yn ei hanfod, mae gan Fagloriaeth Cymru saith sgil cyflogadwyedd hanfodol i'w datblygu:

- llythrennedd
- rhifedd
- llythrennedd digidol
- meddwl beirniadol a datrys problemau
- cynllunio a threfnu
- creadigrwydd ac arloesedd
- effeithiolrwydd personol.

Yn *Dyfodol Llwyddiannus*, nododd yr Athro Donaldson y dylid sefydlu'r sgiliau hyn yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'u cyflwyno ar ddechrau addysg y plentyn a'u datblygu trwy gydol ei amser yn yr ysgol, gan ddarparu llwybrau clir ar gyfer meithrin sgiliau o'r Cyfnod Sylfaen nes cyrraedd Bagloriaeth Cymru. Felly mae Bagloriaeth Cymru yn gyfle i asesu cynnydd dysgwyr o ran datblygu a defnyddio'r sgiliau hyn.

**Manteision ac anfanteision Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr, ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr.**

Mae'r manteision o wneud y THS i'w gweld yn yr astudiaethau achos sydd ar gael ar wefan CBAC ac yn eu cylchlythyrau. Dyma rai enghreifftiau:

- Dysgwr a oedd am astudio Hanes ym Mhrifysgol Rhydychen. Y cynnig oedd A* mewn Hanes ac A* ac A mewn dau bwnc arall. Enillwyd A* mewn Hanes, darparodd y Dystysgrif Her Sgiliau yr ail A*. Hefyd, roedd y gwaith a gyflawnwyd ar Ddinasyddiaeth Fyd-eang wedi helpu yn ei astudiaethau Daearyddiaeth safon U. Roedd y prosiect unigol yn seiliedig ar hanes Cymru a'r Gymraeg a oedd yn bynciau a drafodwyd yn y cyfweliad.

- Llwyddodd dysgwr a ymgeisiodd am le i astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd i ennill A* yn y Dystysgrif Her Sgiliau a chyfrannodd hyn at y gofynion ar gyfer cael lle ar y cwrs. Trafodwyd y prosiect unigol yn y cyfweliad gan ei fod yn brosiect yn ymwneud â'r gyfraith.

- Dywedodd dysgwr a gafodd le fel prentis gyda chyflogwr fod y THS wedi dysgu sgiliau cyflogadwyedd a rheoli amser iddo, a oedd yn werthfawr iawn yn y gweithle.

Mae'n amlwg bod y cymhwyster wedi helpu dysgwyr i gamu ymlaen i addysg uwch a chyflogaeth, ond gwelodd adolygiad Cymwysterau Cymru o'r THS y gellid beirniadu'r cymhwyster yn y ffaith y gallai fod yn ailadrodd ac yn gorgyffwrdd. Mae'r tair Her yn cynnwys datblygu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd, waeth a yw sgiliau ar wahân yn ffocws asesu penodol. Mae'n aneglur beth yw manteision dilyn y tair Her fel tasgau ar wahân yn hytrach na llai o heriau mewn modd gyda mwy o ffocws a sylfaen. Mae hyn yn waeth i'r sawl sy'n dilyn y THS ar lefel Sylfaenol, Cenedlaethol neu Uwch Ôl-16 ar ôl cwblhau'r THS yng Nghyfnod Allweddol 4. Felly maen nhw'n cwblhau tair Her sy'n debyg iawn, er ar lefelau gwahanol o bosibl gyda brîff newydd ddylai fod yn briodol ar gyfer dysgwyr Ôl-16. Mae cynllun Bagloriaeth Cymru yn cael ei adolygu ar sail argymhellion yr adroddiad, gyda golwg ar fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

**Rhwydwaith Seren a Bagloriaeth Cymru**

Ceisia Rhwydwaith Seren ymgysylltu â phobl ifanc sydd â'r dyhead a'r rhagoriaeth academaidd angenrheidiol i ddilyn cyrsiau addysg uwch cystadleuol dros ben. Mae Seren yn darparu dosbarthiadau meistr a chyfleoedd gwerthfawr eraill ar gyfer ysgogi astudiaeth bellach bersonol cyfranogwyr a'u hymdrechion y tu hwnt i safon U a Bagloriaeth Cymru. Hefyd, ceisia Seren ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc a phobl broffesiynol yn yr ysgolion a'r colegau, gan eu harfogi i lywio'u ffordd drwy weithdrefn ymgeisio a all fod yn gymhleth ac anodd.

Mae Prifysgolion Caergrawnt a Rhydychen yn cydnabod bod Uwch Fagloriaeth Cymru yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatblygu eu sgiliau ymchwil a'u sgiliau academaidd, yn enwedig trwy'r prosiect ymchwil annibynnol. Mae'r ddwy brifysgol yn annog eu hymgeiswyr i wneud eu prosiect ymchwil yn berthnasol i'r cwrs astudio maen nhw wedi'i ddewis ac i ddefnyddio profiadau perthnasol o Fagloriaeth Cymru wrth ysgrifennu eu datganiad personol ac yn ystod eu cyfweliad.

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/CE

4 Rhagfyr 2018

Annwyl Carwyn

Yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 28 Tachwedd 2018 trafodwyd rôl y Cynulliad a'i bwyllgorau wrth graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit. Mynegodd y Cadeiryddion bryder sydd ganddynt ynghylch rôl y Cynulliad yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Dywedodd y Cadeiryddion fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru yn nifer o Filiau'r DU sy'n ymwneud â Brexit, yn hytrach na chyflwyno ei Biliau ei hun i'r Cynulliad graffu arnynt. O ran yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gywiro'r llyfr statud cyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, deallaf eich bod wedi cytuno i gyfran sylweddol o'r ddeddfwriaeth hon gael ei gwneud gan Weinidogion y DU, gan ddefnyddio pwerau cydredol ar ran Gweinidogion Cymru.

Er fy mod i, a Fforwm y Cadeiryddion, yn deall eich bod wedi gwneud y penderfyniadau hyn ar sail effeithlonrwydd i'r llywodraethau sy'n rhan o'r broses, y pryder a fynegwyd gan y Cadeiryddion yw bod hyn yn dod ar draul rôl y Cynulliad ac felly gallu'r Aelodau i gynrychioli buddiannau pobl Cymru yn effeithiol yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Wrth gynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd imi gan y Cadeiryddion, a chan weithredu er budd sefyllfa'r Cynulliad ym mhroses Brexit, rwy'n pryderu mai effaith gronnol y penderfyniadau hyn gan Lywodraeth Cymru yw anwybyddu rôl y Cynulliad yn anfwriadol.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod craffu ar ddeddfwriaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, yn enwedig mewn perthynas â meysydd polisi pwysig sy'n effeithio ar ddinasyddion, yn elwa o waith craffu llawer mwy penodol i Gymru pan gaiff ei hystyried gan y Cynulliad.

Nid yw'r cyfle cyfyngedig ar gyfer gwaith craffu a gynigir gan gonfensiynau cydsyniad deddfwriaethol a gweithdrefnau cysylltiedig yn cyd-fynd â phrosesau craffu deddfwriaethol llawn y Cynulliad.

At hynny, mae gwaith craffu deddfwriaethol gan y Cynulliad yn cynnig proses fwy hygyrch a thryloyw i randdeiliaid Cymru a'r cyhoedd, yn ogystal â sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gwneud yn ein dwy iaith swyddogol.

Yn union fel yr ydych wedi ymdrechu i sicrhau rôl i Lywodraeth Cymru ym mhroses Brexit, rhaid imi sicrhau bod y Cynulliad, a'i Aelodau, yn gallu chwarae'r rôl lawn y cawsant eu hethol i'w chyflawni.

Rwy'n deall bod pwyllgorau'r Cynulliad yn bwriadu ymgymryd â gwaith pellach yn y maes hwn ac rwy'n siŵr y byddant yn parhau i godi materion gyda chi a Gweinidogion Cymru.

Yn y cyfamser, gofynnaf ichi ystyried y pryderon a fynegwyd a byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar sut y gallech sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i alluogi'r Cynulliad i chwarae ei ran lawn wrth ddeddfu ar gyfer Brexit.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad, Arweinydd y Tŷ, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (yn sgil ei rôl ym mhroses Brexit).

Yn gywir



Elin Jones AC
Llywydd

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg

5 Rhagfyr 2018

Annwyl Lynne

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Tachwedd, cytunom i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ar y meysydd isod.

Maint Dosbarthiadau Babanod

O ran effaith y cyllid i leihau maint dosbarthiadau babanod, fel dywedom wrth y Pwyllgor yn flaenorol, mae yna 'amser cyflwyno' – hynny yw, cyfnod o benodi athrawon ychwanegol ac, yn enwedig, o greu ystafelloedd dosbarth newydd.

Mae gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau cynnydd erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Ar ôl inni dderbyn yr adroddiadau yma i gyd, ac ar ôl inni eu dadansoddi, a dadansoddi'r cynnydd yn erbyn cynigion unigol, byddwn mewn sefyllfa i ddarparu adroddiad cynnydd yn ystod tymor y gwanwyn 2019.

Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol

Roedd llythyr cyllido'r consortia rhanbarthol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn rhoi dyraniad dangosol i gonsortia ar gyfer 2018-19, a chytunwyd ar nifer o ddiwygiadau ym mis Mawrth 2018. Ar 22 Tachwedd, cyflwynwyd llythyr amrywio i gonsortia a oedd yn amlinellu cyllid ychwanegol yn 2018-19, gan gynnwys £9m ar gyfer dysgu proffesiynol i alluogi ymarferwyr ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol i'w paratoi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith, a £3m arall ar gyfer:

- Gwella Ysgolion;
- Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru;
- Y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol;
- Ieithoedd Tramor Modern – datblygu capasiti yn y sector cynradd;
- Ysgolion Partneriaeth Arloeswyr y Cwricwlwm a Chapasiti Ychwanegol ar gyfer Grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Addysg Gychwynnol Athrawon yn Seiliedig ar Waith a Rhan Amser;
- Mwy Abl a Thalentog; a
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol – Rhaglen Aelodau Cyswllt.

Yn **Atodiad A**, nodir y dadansoddiad diweddaraf o elfennau Grant Gwella'r Consortia Rhanbarthol ar gyfer 2018-19. Mae'r dadansoddiad ar gyfer 2019-20 wrthi'n cael ei baratoi yn erbyn amcanion galluogi *Cenhadaeth ein Cenedl.* Fe ysgrifennwn ni at y Pwyllgor gyda'r dadansoddiad pan fydd hwnnw'n barod.

Nid oes gofyniad penodol i Gonsortia glustnodi'r cyllid hwn. Fodd bynnag, fel rhan o'r cytundeb cyllido, mae'n ofynnol i Gonsortia sicrhau y defnyddir cyllid i gyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg. Yn ogystal, mae gofyn i Gonsortia arddangos tystiolaeth, wrth gynllunio gweithgareddau a llunio cynlluniau busnes, o ymrwymiad amlwg i anfon cyllid ymlaen i ysgolion.

<u>Adolygiad Diamond</u>

Fel yr wyf wedi amlinellu'n flaenorol, mae dadansoddiad o oblygiadau cyllidebol ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond yn seiliedig ar ragolygon, a rheini'n seiliedig ar dybiaethau a rhagolygon sy'n ymestyn sawl blwyddyn i'r dyfodol. Mae'r tybiaethau hyn yn rhai a gytunir ac a reolir drwy weithdrefnau llywodraethu cadarn o fewn Llywodraeth Cymru, ond maent yn destun adolygiadau a gallant newid wrth i ragor o ddata ddod i'r amlwg. Gall y tybiaethau macro-economaidd sy'n sail i'r rhagolygon hyn (ee. rhagamcanion o chwyddiant a thwf cyflogau yn y dyfodol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol) hefyd newid o bryd i'w gilydd.

Mae rhagor o wybodaeth am ragolwg Llywodraeth Cymru o'r cyfanswm y disgwylir ei drosglwyddo i CCAUC ac addysg bellach o ganlyniad i weithredu Adolygiad Diamond yn llawn, ynghyd â rhagolwg o ran pryd y disgwylir i'r cyllid gael ei ryddhau i'r sectorau fesul blwyddyn ariannol, yn **Atodiad B.**

<u>Gweithredu ar Addysg Ôl-16</u>

Ni allwn ddarparu nodyn i'r pwyllgor gyda phob dyraniad o gyllid (Chweched Dosbarth, Colegau Addysg Bellach, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a dyraniadau perthnasol eraill) o fewn Addysg Ôl-16 gan nad yw'r symiau penodol fesul gweithgaredd ar gyfer 2019-20 wedi'u cytuno. Fe ysgrifennwn ni at y Pwyllgor gyda'r dyraniadau cyn gynted â'u bod yn hysbys.

Gobeithio bod yr ateb hwn yn egluro'r materion ychwanegol a godwyd.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

**Atodiad A**

## Manylion dyraniadau Cymru Gyfan i Gonsortia 2018-19

| Amcan | Disgrifiad o'r Cyllid | 2018-19 (Cymru) £ |
|---|---|---|
| Cwricwlwm ac Asesu - cefnogi cwricwlwm cenedlaethol sy'n rhoi'r lle canolog i degwch a rhagoriaeth ac sy'n gosod safonau uchel ar gyfer pob dysgwr | Ysgolion Arloesi Digidol | 390,000 |
| | Cefnogaeth Greiddiol ar gyfer Helpu i Gynllunio a Datblygu'r Curriculum newydd | 2,225,000 |
| | Cwricwlwm - Ysgolion Arloesi - Cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion partneriaeth y cwricwlwm | 660,000 |
| | Cwricwlwm - Ysgolion Arloesi | 2,760,000 |
| | Asesu ar gyfer Dysgu | 400,000 |
| | Fframwaith Defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys y cyfrifiad Siarter Iaith Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg) | 581,066 |
| | Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol | 100,000 |
| | Ieithoedd Tramor Modern - adeiladu capasiti Ieithoedd Tramor Modern yn y sector cynradd | 188,000 |
| | Ysgolion Arloesi Partneriaeth y Cwricwlwm a Chapasiti Ychwanegol i Grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad | 990,000 |
| | Cymorth ar gyfer Maesydd Dysgu a Phrofiad | 100,000 |
| | Mwy abl a thalentog | 500,000 |
| Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel - gwella'r addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion | Y Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | 118,137,000 |
| | TGAU newydd - Grant Rhaglen Cymorth TGAU | 1,000,000 |
| | Ieithoedd Tramor Modern (Dyfodol Byd-eang) | 432,000 |
| | Cymorth Prawf Rhifedd Cenedlaethol | 20,000 |
| | Grant Llythrennedd a Rhifedd | 500,000 |
| | Dysgu Proffesiynol - Ysgolion Arloesi | 1,860,000 |
| | Dysgu yn y Gymru Ddigidol - DPP Cam II | 450,000 |
| | Codio a Sgiliau Digidol | 300,000 |
| | Cynllun Llafaredd Cymru y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Cynradd) | 700,000 |
| | Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) | 920,000 |
| | Safonau addysgu proffesiynol | 80,000 |
| | Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg) | 900,000 |
| | Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen | 200,000 |
| | Cymraeg - Ymgyrch recriwtio i ddenu rhagor o athrawon i'r sector Cyfrwng Cymraeg ac i addysgu Cymraeg fel pwnc (ERW) | 30,000 |
| | Cymraeg - Datblygu Proffesiynol - Cyllid gan y Consortia (rhai llinellau wedi'u cyfuno) | 2,600,000 |
| | Cymhwysedd Digidol - Cynnig Dysgu Proffesiynol | 400,000 |
| | Gwella Safon Uwch | 280,000 |
| | Cyflenwad Athrawon/Gweithlu Addysg gan gynnwys cynlluniau peilot partneriaethau AGA | 300,000 |
| | Y Rhaglen Athrawon Cyfrwng Cymraeg a'r Rhaglen Athrawon Graddedig | 200,000 |
| | Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru | 20,000 |
| | AGA Rhan-amser ac AGA seiliedig ar waith | 200,000 |
| | Dysgu proffesiynol i gefnogi a chodi ansawdd ein athrawon | 9,000,000 |
| Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr sy’n ysbrydoli ac sy’n cydweithio i godi safonau. | Arweinyddiaeth ar gyfer y Dyfodol (darpar arweinwyr, arweinwyr canol a chefnogaeth Hyfforddi a Mentora) | 1,000,000 |
| | Cefnogi Rhwydweithiau Proffesiynol | 60,000 |
| | Cymorth Rhwydwaith a Mentora i Benaethiaid | 90,000 |
| | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) | 780,000 |

| **Amcan** | **Disgrifiad o'r Cyllid** | **2018-19 (Cymru) £** |
|---|---|---|
| Yn cynnwys  arweinwyr y dyfodol a rhwydweithiau proffesiynol | Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol - Rhaglen Cymydeithion | 40,000 |
| Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagorieth, tegwch a lles | Grant Datblygu Disgyblion | 91,133,200 |
| | Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorwyr Cyrhaeddiad | 400,000 |
| Cefnogi system hunanwella - cefnogi system lle mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y capasiti a'r asiantaeth i ddysgu a gwella arferion yn barhaus | Ehangu effaith a dyfnder cydweithio, gan gynnwys drwy ffedereiddio | 800,000 |
| | Cefnogi cydweithio a  helpu i ddatblygu capasiti o fewn y consortia - Cyllid Maen Prawf 3: | 580,000 |
| | Ymchwil a Gwerthuso ar y Cyd, cefnogi arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y rhanbarthau | 240,000 |
| | Datblygu sefydliadau i fod yn sefydliadau sy’n dysgu - Cyllid Maen Prawf 3: | 500,000 |
| | Gwella Ysgolion | 122,668 |
| | Arbenigedd o ran adeiladu capasiti | 70,000 |
| **Cyfanswm (ac eithrio'r Grant Datblygu Disgyblion) - Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol** | | **151,705,734** |
| **Cyfanswm (gan gynnwys Grant Datblygu Disgyblion)** | | **243,238,934** |

**Cam Gweithredu gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ddarparu:**

**Nodyn yn manylu ar ragolygon Llywodraeth Cymru o'r cyfanswm y mae disgwyl ei drosglwyddo i CCAUC ac addysg bellach o ganlyniad i weithredu Adolygiad Diamond yn llawn a rhagolygon ynghylch pryd y mae disgwyl i'r cyllid hwn gael ei ryddhau i'r sectorau ar hyn o bryd, yn ôl blwyddyn ariannol.**

Mae'r dadansoddiad o oblygiadau cyllidebol ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond yn seiliedig ar ragolygon a wnaed ar sail ystod o dybiaethau a rhagolygon sy'n rhychwantu sawl blwyddyn yn y dyfodol. Tra bo'r tybiaethau hyn wedi'u cytuno arnynt ac yn cael eu rheoli'n dda trwy weithdrefnau llywodraethu sydd wedi ennill eu plwyf o fewn Llywodraeth Cymru, mae rhagolygon a thybiaethau yn gallu cael eu hadolygu a'u newid yn barhaus, wrth i ragor o ddata ddod ar gael. Gallai'r rhagdybiaethau macro-economaidd sy'n sail i'r rhagolygon hyn (ee amcanestyniadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o chwyddiant a thwf mewn enillion yn y dyfodol) newid hefyd.

Hefyd, mae'n bwysig ystyried yr egwyddor o warchod cohort, sy'n golygu mai dim ond i fyfyrwyr newydd y bydd y diwygiadau yn berthnasol, ac y bydd y polisïau blaenorol yn parhau i gael eu hariannu ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes yn y system. Mae'r rhagolygon yn adlewyrchu camau cychwynol y newidiadau ar gyfer myfyrwyr newydd yn sgil Adolygiad Diamond, yn ogystal â'r camau i ddirwyn trefniadau blaenorol i ben, lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r goblygiadau ar gyfer cyllideb CCAUC i'w gweld yn y tabl isod.

**Rhagamcanion Cyllideb CCAUC, yn ôl blwyddyn ariannol**

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| **Rhagdybiaeth cynllunio refeniw** | **£115m** | **£125m** | **£155m** | **£170m** |
| **Dyraniadau refeniw ychwanegol (ymrwymiadau)** | | | | |
| Dechrau dwys i 2017-18 [1] | -£6m | | | |
| Cynllun bwrsariaeth dros dro i ôl-raddedigion | £5m | £5m | £1m | |
| Cyllid i liniaru ffioedd dysgu | £5m | £5m | | |
| Prentisiaethau Gradd | £3m | £5m | | |
| Cymru Fyd-eang II | | £1m | | |
| **Cyfanswm cyllid refeniw** | **£122m** | **£141m** | **£156m** | **£170m** |
| Cyllid Cyfalaf | £10m | £10m | £10m | ? |
| **Cyfanswm y gyllideb** | **£132m** | **£151m** | **£166m** | **£170m** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru
Mae pob ffigur wedi'i dalgrynnu i'r£1m agosaf
[1] Dygwyd £6.241m ymlaen i ddyraniad 2017-18 i alluogi HEFCW i ymdrin ag unhryw oblygiadau yn y cyfnod byr a allai godi yn sgil newidiadau demograffig a goblygiadau cychwynnol Brexit.

Mae'r rhagamcan yn adlewyrchiad o dybiaethau cynllunio sydd wedi cael eu rhannu â CCAUC yn sgil datblygu ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond, yn ogystal â dyraniadau ychwanegol a gyhoeddwyd wedyn. O gofio'r cafeatau a amlinellir yn y paragraffau uchod, mae'n bwysig iawn pwysleisio y dylid ystyried y ffigurau hyn fel rhagolygon yn hytrach nag ymrwymiadau. Rydym yn disgwyl y bydd ffigurau tebyg ar gael ar gyfer y 2 flwyddyn ariannol, unwaith y bydd y rownd gyllidebu nesaf wedi ei chwblhau.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon